Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Canlyniad ymgynghori ar y cynnig i newid y ddyletswydd i awdurdod lleol ddarparu llety ar gyfer cyn-garcharorion o ganlyniad i'w statws angen blaenoriaethol** |
| **DYDDIAD** | **15 Tachwedd 2013** |
| **GAN** | **Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio** |

Yr hydref hwn, lansiais ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ymhellach y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ddigartrefedd newydd yr wyf yn ei chyflwyno yn fy Mil Tai. Mae’n nodi fy nghynnig i newid statws angen blaenoriaethol cyn-garcharorion mewn perthynas â dyletswyddau digartrefedd awdurdodau lleol. Heddiw, rwy’n cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad.

Rwy’n ymwybodol bod y pwnc o gyn-garcharorion yn cael statws angen blaenoriaethol ar gyfer tai yn un dadleuol. Cydnabyddir anghenion cyn-garcharorion ond ystyrir bod y trefniadau presennol yn annheg o ran eu bod yn cael blaenoriaeth dros nifer o bobl eraill sy’n agored i niwed waeth beth fo’u hamgylchiadau personol.

Rwy’n ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i’r ymgynghoriad. Daeth 55 ymateb i law gan sefydliadau ac unigolion ym maes tai a thu hwnt.

Gwnaed amrywiaeth eang o sylwadau, ac roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi bod dyletswyddau a blaenoriaeth yn canolbwyntio ar weithio gyda phob carcharor mewn perygl i’w helpu i’w hatal rhag dod yn ddigartref, tra’n cynnal dyletswydd i’w hailgartrefu lle maent yn amlwg yn agored i niwed oherwydd eu carchariad. Bydd y ddeddfwriaeth yn parhau i ddarparu statws angen blaenoriaethol i unrhyw un, gan gynnwys carcharor, sy’n agored i niwed oherwydd amgylchiadau arbennig, fel salwch meddwl.

Mynegodd sawl ymatebydd bryderon am rai agweddau ar y cynigion, yn enwedig yr effaith bosibl ar adsefydlu carcharorion sy’n agored i niwed yn llwyddiannus a’r effaith ar

aildroseddu. Bydd darpariaethau ehangach digartrefedd yn rhoi gwell cymorth i garcharorion cyn eu rhyddhau i ganfod llety addas iddynt.

Rwyf wedi penderfynu cynnwys y cynnig ar wyneb y Bil. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r newid hwn yn llwyddiannus drwy gydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

Hoffwn bwysleisio y byddwn yn parhau i ddiwallu anghenion cyn-garcharorion sy'n agored i niwed drwy'r ddeddfwriaeth, o fewn cyd-destun mwy rhagweithiol i atal.

**Ymgynghori ar y cynnig i newid y ddyletswydd i awdurdod lleol i ddarparu ar gyfer cyn-garcharor o ganlyniad i'w statws angen blaenoriaeth:**

http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/amend-duty-to-accomodate-former-prisoner/?status=closed&lang=cy.